



Polisi (Adran Addysg Gwynedd)

Darparu ar gyfer Troseddwyr ifanc

1. Cyflwyniad

Mae troseddwyr ifanc ymhlith y grwpiau sydd dan fwyaf o anfantais ac â'r cyrhaeddiad isaf yn ein cymdeithas. Mae troseddwyr ifanc hefyd yn debygol o fod wedi ymddieithrio o'r ysgol. Yn ôl ymchwil yr Arolygaeth Carchardai, mae tua 40% wedi bod yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ar ryw adeg, 84% wedi eu gwahardd o'r ysgol, 73% yn disgrifio eu cyrhaeddiad addysgol fel bod yn isel iawn.

2. Cyd-destun

2.1 Yn 2001/2 roedd cyfanswm o 2,428 o bobl ifanc dan 18 oed yn cyflawni dedfryd o garchar yng Nghymru a Lloegr.

2.2 Mae ymchwil yn dangos bod 1 ym mhob 3 sydd dan oruchwyliaeth Tim Troseddu leuentid angen cymorth gyda darllen ac ysgrifennu a bod 1 o bob 2 yn tangyflawni yn yr ysgol.

2.3 Mae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol wedi darganfod bod 6 o bob 10 o bobl sydd yn y carchar, dynion ifanc yn bennaf, yn anllhythrennog ac yn anrhifog i bob pwrpas.

2.4 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi pennu troseddwyr ifanc fel y grwp allweddol o bobl ifanc all fod angen cymorth i gael mynediad at yr hawl gyffredinol sylfaenol i wasanaethau. Mae canllawiau Llwybrau Dysgu 14-19 yn nodi agwedd Llywodraeth y Cynulliad tuag at ddarparu profiadau dysgu priodol a'r gefnogaeth angenrheidiol i'r bobl ifanc o fewn y system cyfiawnder troseddol.

3. Datganiad o fwriad

3.1 Bydd Adran Addysg Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i annog a chefnogi troseddwyr ifanc sy'n cwblhau dedfrydau cymunedol a dedfrydau o garchar.

3.2 Bydd Adran Addysg Gwynedd yn cydnabod hawl i'r plentyn gymryd rhan ac i'w lais gael ei glywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar ei fywyd

3.3 Bydd Adran Addysg Gwynedd yn cydweithio gyda phob asiantaeth sy'n gweithio gyda'r person ifanc i ganfod ei anghenion dysgu a datblygu Cynllun Dysgu Unigol fydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i fodloni'r anghenion hynny

4. Fframwaith Statudol

4.1 Deddf Addysg 1996

4.3 Deddf Plant 2004

5.Egwyddorion Sylfaenol

5.1 Mae gan pob disgybl yr hawl i gael mynediad i holl wasanaethau addysg

5,2 Mae gan pob disgybl yr hawl i gyfleoedd cyfartal ar gyfer cyrraedd llwyddiannau addysgol

6.Dyletswydd Adran Addysg Gwynedd

6.1 Os yw'r Tim Troseddau Ieuenctid (TTI), fel rhan o'u hasesiad cychwynnol, yn nodi nad yw'r ddarpariaeth ysgol yn briodol, cyfrifoldeb yr Adran Addysg yw darparu anghenion addysg ac hyfforddiant troseddwr ifanc oed ysgol statudol

Bydd yr Adran Addysg yn ymarfer y cyfrifoldeb hwnnw, gyda'r oedi lleiaf posib, yn y ffyrdd canlynol:

- O fewn 14 diwrnod ar ôl i'r TTI gysylltu, arwain gwaith aml-asiantaethol i gynhyrchu Cynllun Dysgu Unigol(CDU) ar gyfer pob troseddwr ifanc yn seiliedig ar asesiad o'u anghenion unigol a sut y maent yn dysgu;
- Sicrhau fod y CDU yn cael ei ddatblygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd gan ddefnyddio dull cyfranogol sy'n cynnwys yr unigolyn ifanc ac yn ei helpu i ddod yn brechen ar y cynnwys
- Sicrhau y defnyddir gwybodaeth sydd gan yr AAL/Ysgol mewn cysylltiad ag anghenion yr unigolyn ifanc gan gynnwys unrhyw anghenion addysgol arbennig i fwydo i'r CDU
- O fewn y protocolau rhannu gwybodaeth a ddatblygwyd o fewn y bartneriaeth pobl ifanc leol(PPI), sicrhau y defnyddir gwybodaeth sydd yn nwylo asiantaethau eraill yn arbennig; iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai a gyrfaedd mewn cysylltiad ag anghenion y bobl ifanc, i fwydo'r CDU
- Gweithio gyda phartneriaethau lleol a phlant, y PPI a rhwydweithiau 14-19 i sicrhau fod dewislen hyblyg a gwahaniaethol o ddarpariaeth ar gael i fodloni anghenion dysgu cymhleth ac amrywiol troseddwr ifanc,gan gynnwys addysg anffurfiol, cefnogaeth bersonol a'r cyfle i gael hyfforddwr dysgu
- Deall yn glir eu rôl yn comisiynu a sicrhau darpariaeth gan asiantaethau allanol gan gynnwys y sector gwirfoddol a darparwyr yn y gymuned
- Gofalu fod CDU pob troseddwr ifanc yn cynnwys yr hawl i gael darpariaeth lawn ar gyfer 25 awr yr wythnos
- Gweithio gyda'r unigolyn ifanc ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol i fonitro faint sy'n manteisio ar y ddarpariaeth.

6.2 Er mwyn talu am y gweithgaredd a ddisgrifir uchod bydd yr awdurdod yn gwneud trefniadau ariannol priodol gyda'r ysgol ddiwethaf i'r troseddwr ifanc ei mynychu.

6.3 Datblygu, cyfuno a chynnal cysylltiadau gwaith a chyfathrebiadau da gyda'u Partneriaid Plant a Phobl Ifanc Leol, gwasanaethau a rhwydweithiau 14-19oed statudol a gwirfoddol, yn ogystal â'r TTI perthnasol.

6.4 Cydwdeithio gyda TTI ac asiantaethau eraill i sicrhau y rhoddir gwerth uchel ar sgiliau pawb o'r rheini sy'n gweithio i ateb anghenion hyfforddiant ac addysg troseddwy ifanc a'u bod yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.

6.5 Gweithio gyda darparwyr yn y gymuned a darparwyr yn y sector gwirfoddol sydd yn bodloni rhai o anghenion hyfforddiant ac addysg troseddwy ifanc.

6.6 Cadw'r manylebau a ddarperir gan Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wrth ddarparu addysg i droseddwy ifanc sydd yng ngofal yr awdurdod.

7. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol

7.1 Mae'n ddyletswydd ar lywodraethwyr ysgolion i sicrhau mynediad i adnoddau a darpariaeth briodol i bob disgybl

7.2 Rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r deddfau perthnasol.

8. Arfer dda i Benaethiaid Ysgolion

8.1 Sicrhau bod athrawon yr ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd yn cwblhau dedfrydau cymunedol.

8.2 Sicrhau bod athrawon yn sensitif i bryderon troseddwy ifanc os datgelir manylion eu sefyllfa.

8.3 Sicrhau bod yr ysgol yn cydweithio gyda'r awdurdod i:

- Ddatblygu, cyfuno a chynnal cysylltiadau gwaith a chyfathrebiadau da gyda'u Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Lleol, gwasanaethau a rhwydweithiau 14-19oed statudol a gwirfoddol, yn ogystal â'r TTI perthnasol.
- Gydweithio gyda TTI ac asiantaethau eraill i sicrhau y rhoddir gwerth uchel ar sgiliau pawb o'r rheini sy'n gweithio i ateb anghenion hyfforddiant ac addysg troseddwy ifanc a'u bod yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.
- Weithio gyda darparwyr yn y gymuned a darparwyr yn y sector gwirfoddol sydd yn bodloni rhai o anghenion hyfforddiant ac addysg troseddwy ifanc.

8.4 Sicrhau bod gan y disgybl gyswllt penodol ar y staff, gan mewn rhai achosion, y byddant eisiau rhannu eu hanawsterau.

Dyddiad Mabwysiadu'r polisi yn wreiddiol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Dyddiad Adolygu'r Polisi: